

## Cyngor Cymuned Llanllyfni

### Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Llanllyfni, a gynhaliwyd yn rhithiol dros y system 'Zoom', Nos Fawrth, 12 Hydref 2021 am 7.00 o'r gloch.

#### Agenda

1. **Presennol:** Dafydd Thomas (Cadeirydd) – Nebo, Gareth Lloyd Jones – Talysarn; Barry Bracegirdle, Heledd Gwilym, Justin Davies, Erfyl Williams – Penygroes; Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts – Llanllyfni; Cyngorydd Craig ab Iago a Cyngorydd Judith Humphreys.

**Ymddiheuriadau:** Sian Dafydd, Peter Bridges, Harry Owen – Talysarn. OP Huws – Llanllyfni, Dylan Herbert, Ceri Owen – Penygroes, Ffion Jones - Nantlle. Ni dderbynniwyd ymddiheuriad gan y Cyngorydd Dilwyn Lloyd - Talysarn.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd.

2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir-** Justin Davies yn datgan diddordeb yng nghais cynllunio Cymru Fydd.

3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod 21 Medi 2021 –** Cynnigwyd gan Barry Bracegirdle ac eilwyd gan Gwyndaf Roberts fod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd -** Roedd y clerc wedi derbyn ebost gan Rob Jones sydd yn ymwneud a adran llwybrau yn Cyngor Gwynedd yn cynnig i gyfarfod gyda rhywun o'r Cyngor Cymuned er mwyn trafod ag edrych ar rai o lwybrau yr ardal – cytunodd Dafydd y buasai o yn fodlon cyfarfod – y clerc i gysylltu nôl gyda Rob Jones i ategu hyn a trafod dyddiadau i gyfarfod.

5. **Adroddiadau gan y Cyngorwyr Sir –** Roedd pawb wedi derbyn yr adroddiad yr oedd Judith Humphreys wedi ei pharatoi ymlaen llaw er mwyn cael edrych drosti a rhoddwyd cyfle i bawb godi unrhyw beth o'r adroddiad. Aeth Judith drwy yr adroddiad i egluro rhai materion – ond nid oedd dim yn codi gan y cyngorwyr cymuned. Diolchwyd i Judith am ei adroddiad.

6. **Taflen ariannol –** Roedd pawb wedi derbyn copi o'r daflen ariannol cyn y cyfarfod i edrych drostynt. Esboniodd y clerc ei bod wedi gyrru sic i Tom James Construction am eu gwaith ym Mynwent Macpela, ond nad oedd y sic wedi ei thalu i fewn i'r banc ganddynt eto. Holodd Heledd os oedd y cyngor am wneud rhywbeth i nodi rhoi y golau nadolig ymlaen – roedd Ceri wedi son wrth Nia bod POBI yn meddwl gwneud digwyddiad ac yn fodlon uno os eisiau – penderfynwyd i drafod hyn yn y cyfarfod nesaf pan fydd Ceri yn bresennol, ac yn dilyn o gael mwy o wybodaeth o pryd fydd y golau yn cyrraedd.

7. **Cyfarfodydd is-bwyllgorau –** Cynhaliwyd cyfarfod is-bwyllgor Llwybrau a Mynwentydd ar 6ed Hydref lle trafodwyd tendr pori Cae Macpela, gwaredu a'r coed celyn ym Mynwent Sant Rhedyw a Contract torri Mynwentydd a Llwybrau. Adroddwyd yn nôl i'w pwyllgor llawn beth oedd wedi ei drafod a'i gynnig yn y cyfarfod hwn. O ran y tendr pori rhoddwyd yn cynnig o flaen y cyngor llawn y dylid cario allan gwaith o osod giât yn nôl yn ngwaelod y cae am y pris o £153 (deunyddiau) + llafur + TAW a cytunwyd gyda hyn. Hefyd roedd yr is-bwyllgor wedi trafod ffensio pob ochr i'w lôn newydd rhag fod baw defaid yn cario a difetha y tarmac newydd – roedd Gwyndaf wedi cael pris o £2670+TAW am y gwaith hyn, ond roedd Harry Owen wedi cynnig y dylid ffensio yr ochr fwyaf, felly penderfynwyd yn y cyfarfod llawn hwn i Gwyndaf gael pris am hyn hefyd cyn penderfynu bet hi wneud. Trafodwyd fod cerrig wedi eu gadael yn y rhan newydd a bod angen cysylltu gyda'r contractwyr i ddod i ymadael a hwynt – cytunwyd i'r clerc gysylltu gyda nhw am hyn. O ran y coed celyn ym Mynwent Sant Rhedyw – un pris wedi ei dderbyn ag yn disgwyl am un arall – trafod hyn yn y pwyllgor llawn nesaf (9 Tachwedd). Contract torri Mynwentydd a Llwybrau – adroddwyd fod y contract yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2022 a bod angen ei ail-wampio cyn hysbysebu. Adroddwyd beth oedd wedi ei drafod yn yr is-bwyllgor a bod Dafydd wedi

cytuno i ail-wampio y contract a'i phasio ymlaen i bawb edrych drosti a rhoi eu barn a hefyd gofyn i Siân os y buasai yn fodlon edrych drosti i wneud yn siwr fod popeth yn iawn gyda hi. Gofynwyd i bawb edrych dros y rhestr llwybrau cyhoeddus a nodi os oes angen newid unrhyw beth. Hefyd gofynwyd i'r clerc nodi yn Lleu nad yw y cyhoedd i adael sbwriel ar ôl yn y mynwentydd.

**8. Llythyr draft i Gyngor Gwynedd ynglŷn â diffyg ymatebion gan y swyddogion**

Roedd y clerc wedi drafftio llythyr a'i yrru i bawb edrych drosto. Roedd ambell newid wedi ei gynnig, ac yn dilyn o wneud y newidiadau gofynwyd i Nia ei basio ymlaen i brifweithredwr Cyngor Gwynedd, Dafydd Gibbard.

**9. Clwb Ieuenctid** – adroddodd Judith Humphreys eu bod yn awyddus i ail ddechrau y clwb yn Dyffryn Nantlle ag yn holi os fuasai y Cyngor Cymuned yn fodlon cyfrannu yn ariannol. Hefyd mae Sion Bryn o'r Adran Ieuenctid wedi cynnig do di siarad gyda'r cyngor ymhellach am y mater – cytunwyd i wahodd Sion i gyfarfod Rhagfyr / Ionawr. (Bu i Justin Davies gyrraedd y cyfarfod)

**10. Materion Pentrefi - Nebo** – Adroddwyd nad oes bellach wasanaeth bysiau i Nebo, Nasareth na Llanllyfni, ag os yw'r cyhoedd angen bws nawr yna mae raid iddynt archebu tacsï 24 awr ymlaen llaw. Pobl yn siomedig dros ben gyda hyn a pobl wedi bod yn cefnogi y gwasanaeth hwn er mwyn gwneud yn siwr ei fod yn parhau, ond yn anffodus dal yn ei waredu. Adroddodd Dafydd fod Pwyllgor Ardal Nebo wedi llythyru Sian Gwenllian am hyn. Dywedodd Judith Humphreys nad oedd yn ymwybodol fod hyn wedi digwydd. Cynnigiodd Gwyndaf Roberts efallai y dylai y Daily Post ddod i wybod am hyn a dywedodd Dafydd ei fod am ofyn i ysgrifenyddes Pwyllgor Ardal Nebo i gysylltu gyda nhw. Cynnigiodd Judith Humphreys y dylai y Cyngor Cymuned lythyru Cyngor Gwynedd a Plaid Cymru am hyn hefyd. Nia i ddrafftio llythyr a'i yrru i bawb roi eu barn arno. **Talysarn** – nid oedd dim mater yn codi. **Penygroes** – Adroddwyd fod cerbiau tu allan i 28 a 50 Trem Yr Wyddfa wedi torri ag angen sylw – y clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am hyn. Adroddwyd fod y lloches bws ger y co-op wedi ei falurio – trafod hyn gyda yr heddlu yn y cyfarfod nesaf. Holodd Hefina os oes posib gwneud unrhyw beth ynglŷn â'r cerrig a ballu sydd yn disgyn oddi ar gefn trelars pan yn mynd o amgylch y cylchdro ag yn gadael llanast gan nad oes gorchyddion dros y cerrig – trafod hyn gyda'r heddlu yn y cyfarfod nesaf. **Llanllyfni** – Y llwybr rhwng Berth a Graianfryn angen ei dorri – y clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am hyn. Adroddwyd fod baw ci yn warthus ar hyd y pentref a gofynwyd os oes posib i'r clerc gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i ofyn am fwy o arwyddion i roi fyny gwmpas y pentref i ddweud wrth bobl godi y baw. Y clerc i gysylltu i ofyn am arwyddion.

**11. Ardal Ni 2035** – Y clerc i gysylltu gyda Rhian George i bennu dyddiad ar gyfer cyfarfod rhithiol ag yna paw bi edrych dros yr ebost sydd eisioes wedi ei yrru allan am hyn a paratoi ymatebion.

**13. Dorothea** - Roedd criw Dorothea wedi paratoi adroddiad a Nia wedi ei gyrru ymlaen i bawb gael golwg drosti cyn y cyfarfod. Yn dilyn trafod yr adroddiad penderfynwyd ar hyn o bryd nad oes angen cyfarfod gyda hwy gan nad oes llawer i weld wedi newid ers y tro diwethaf – Nia i gysylltu gyda Tim Heatley i ddweud hyn.

**14. Dysgwyr Y Dyffryn** – Esboniodd OP Huws beth oedd y syniad tu ôl i hyn gan fod angen meddwl am rywbeth i roi argraff dda o'r ardal. Awgrymodd y buasai yn syniad creu gweithgor o'r Cyngor Cymuned i helpu gyda gwella deunyddiau i ddysgwyr Cymraeg yn y Dyffryn ac y buasai yn hoffi gweld aelodau newydd y Cyngor yn ymwneud a hyn. Ategodd Judith Humphreys fod hyn yn syniad ardderchog.

**15. Ceisiadau Cynllunio –**

- C21/0911/22/LL – Cymru Fudd, Heol Y Dŵr, Penygroes – Newid defnydd o siop a maisonette i swyddfeydd. Roedd Justin Davies wedi datgan diddordeb yn y mater hwn ac felly wedi gadael y cyfarfod am y tro. Nid oedd dim gwrthwynebiad i'r cais.

**16. Gohebiaeth** – Roedd pawb wedi derbyn copiau o'r gohebiaeth i edrych amynt a rhoddwyd cyfle i godi unrhyw fater a oedd yn dod ohonynt. *Parc Cenedlaethol Eryri – dod yn aelod o Awdurdod y Parc* - Holwyd os oedd yna unrhyw un o'r Cyngor Cymuned yn aelod o Awdurdod y Parc Cenedlaethol – na dim rwan. *Cymdeithas Yr Iaith – cais i gefnogi'r alwad ar Lywodraeth Cymru i reoli y farchnad dai* – penderfynwyd yn unfrydol i gefnogi y cais hwn. *Fforwm Cymunedol Llechi Cymru* – trafodwyd a penderfynwyd fod y cadeirydd i fynychu y fforwn hwn.

**16. Materion ariannol** – Nia Jones - £25.00 Ffôn a Rhyngrwyd Hydref – cytuno i dalu  
- Nia Jones - £14.39 Zoom Hyderf – cytuno i dalu.